

## Tom Pemberton - TP Farm Life




Ffermwr, cyflwynydd teledu, awdur llwyddiannus a seren cyfryngau cymdeithasol ‘Make Hay While the Sun Shines: A Year on the Farm’  
Yn 2016, uwchlwythodd Tom Pemberton, ffermwr biff, laeth a defaid o Swydd Gaerhirfryn, fideo un munud ar YouTube, yn trafod sut i ddefnyddio peiriant gwerthu laeth crai newydd y siop fferm. Roedd yn meddwl y byddai llond llaw o bobl yn ei wyllo. Ond fe wnaeth llawer mwy. Ac felly dechreuodd uwchlwytho fideos yn rheolaidd, bob dydd Mawrth, dydd Gwener ac ambell i ddydd Sul, i ddangos yr hyn y mae’n ei wneud ar y fferm.  
Yn gyflwynydd rhaglen lwyddiannus ar BBC Three ‘The Fast and Farmer-ish’, yn fwy diweddar, mae Tom wedi dod yn awdur llwyddiannus ar restr The Sunday Times, gyda’i lyfr cyntaf ‘Make Hay While the Sun Shines: A Year on the Farm’. Bellach yn ffermwr ac yn seren cyfryngau cymdeithasol, mae Tom wedi denu dilynwyd di-ni yn fyd eang, a’i synnwyr digrifwch heintus a’i garisma naturiol o flaen y camera yn denu degau o filoedd o ddilynwyd ar draws nifer o lwyfannau.  
Yn 2018, enillodd Tom Wobr Ffermio Prydain ar gyfer Arloeswr Digidol y Flwyddyn, ac mae wedi parhau i adeiladu ei frand, ar ôl gweithio gyda chwmnïau fel Mercedes, Case IH, Kirby Tyres a Can-Am i enwi ond ychydig.  
Mae Tom yn ymfhyrfu mewn unrhyw gyfle i agor giatiau ei fferm deuluol i gael golwg hynod ddoniol a chynnes ar fywyd amaethyddol, o beiriannau gwerthu laeth crai i’r peryglon o fod yn fab fferm. Gydag anwydeb, mae’n galw ei dad, Andy, yn ‘ryfelwr sinsir’, gyda ‘mamï arth’ a chwaer sy’n caru ceffylau yn rhan o’u huned deuluol agos.  
Ers chwe chenhedaeth, mae’r teulu Pemberton wedi ffermio yn Birks Farm ger tref brydferth Lytham ar Arfordir Fyde yn Swydd Gaerhirfryn, gan weithio ym mherfeddys ardal ers 1830au, ac wedi cyflenwi cynnyrch laeth i’r gymuned leol byth ers hynny.

## Ben Taylor-Davies – RegenBen



**Adfywiad...achub y ffermwr...achub y fferm**  
Magwyd Ben Taylor-Davies ar fferm deuluol 540 erw yn Rhosan ar Wy, cyn astudio daearyddiaeth ym Mhrifysgol Lerpwl. Roedd ei waith fel agromomegydd yn mynd yn arbennig o dda tan 2012, pan fu ei fab mewn damwain car drifol. Newidiodd bywyd i’r teulu cyfan, a chafodd effaith aruthrol ar iechyd meddwl Ben.  
Wedi derbyn ysgoloriaeth Nuffield yn 2016 i astudio cynffonweldt du, mae Ben yn dweud bod y cyfle hwn wedi gwneud iddo ail-werthwio ei fywyd a’i fusnes fferm. Mae’n dweud bod adfywio ei feddwl, amaethyddiaeth adfywio a’i hegwyddorion o bentryrru mentrau sy’n llythrennol wedi ei ‘achub’. Ei brif ffocws heddiw yw rhoi rhywbeth i’r genhedlaeth nesaf, gan gynnwys mwy o bridd, amgylchedd gwell, ffrwd incwm amrywiol a dim dyled - y cyfan wedi’i nodi yng nghyllun 30 mlynedd y fferm.

## Gwerfyl Owen-Harding – Dylunio Dy Dŷ



**Creu’r ‘wawffactor’ yn eich ffermyd neu fenter arallgyfeirio**  
Mae’r ‘wawffactor’ Gwerfyl, yn ddylunydd mewnol profiadol wedi’i lleoli yng Nghanolbarth Cymru. Penderfynodd y wraig a’r fam greadigol hon droi ei diddordeb gydol oes yn fusnes, gan sefydlu ei busnes ymgynghori dylunio mewnol ei hun saith mlynedd yn ôl. Mae Gwerfyl yn arbenigo mewn creu cynlluniau a rheoli prosiectau sy’n cynnwys dylunio’r gofod mewn adeiladau newydd, eiddo preswyl a masnachol, gan gynnwys nifer o fentrau arallgyfeirio twristiaeth fferm. Yn wrandawr da sy’n ystyried dewis ei chleientiaid o arddull a chyllideb, bydd Gwerfyl yn eich annog i ‘beidio â’i chwarae’r rhy ddiogel’ o ran addurniadau mewnol. Byddwch yn barod i ddysgu sut y gall y steilio cywir, dyluniau, cynlluniau lliw, dodrefn ac addurniadau drawsnewid bythynnod, peyll, cwtiau, cabanau pren, ac wrth gwrs, eich cartref neu swyddfa eich hun, yn fannau gwirioneddol arbennig a chofiadwy.

## Christian Nightingale - Lely Atlantic Ltd



**Sut y gall cynhyrchion Lely ac arloesi newydd wneud gwahaniaeth yn y byd ffermio**  
Cyda dros 30 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y diwydiant amaethyddol, ymunodd Christian i Lely Atlantic Limited ym mis Mai 2021. Cyn hynny, bu’n gweithio i weithgynhyrchwyr tractorau mawr a gwerthwyr nwyddau amaethyddol, yn bennaf mewn swyddi yn ymwneud â pheiriannau. Yn ei rôl bresennol, mae Christian yn gyfrifol am borthfoll offer ysguboriau Lely, y mae’r Lely Sphere yn rhan ohono. Yn ei gyflwyniad, bydd yn esbonio sut mae Lely, gan ddefnyddio’r Lely Sphere, yn bwriadu lleihau allyriadau amonia sy’n cael eu rhyddhau i’r atmosffer o fewn ysguboriau laeth.

## Laura Lewis – Squirrels Nest Treehouse Retreats



**Sefyll allan...sichrau bod eich llety gwyliau yn dod yn fenter lwyddiannus**  
Bydd Laura, y fam a’r wraig ifanc, yn rhannu ei siwrnai ar sefydlu busnes glampio moethus a llwyddiannus ar fferm ddefaid 130 erw’r teulu yng Nghanolbarth Cymru. Fel y gwyrw marchnata, mae dychmyg, gweledigaeth a sgîl Laura wedi sichrau bod y fenter newydd yn ‘sefyll allan’.  
Ar ben llechwedd 900 erw, mae’r encillydd coed cedrwydd a llarwydd yn cynnwys ystafelloedd syfrdanol, tybiau poeth, pwll tân a hamogau, sydd wedi sichrau adolygiadau gwych gan y wasg genedlaethol ac ymwelwyr. Bydd Laura yn rhannu agwedd y teulu at ddenu a chadw archebion, ac egluro sut mae cyfryngau cymdeithasol wedi bod o fudd iddynt fel busnes. Mae Laura hefyd wedi sefydlu ‘The Wanderlist’, cyfeiriadur ar-lein newydd sy’n rhestru lletyau moethus yn y DU.

## Dr Will Stiles – Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), Prifysgol Bangor



**Rhoi ffigwr ar stociau carbon ar ffermydd yng Nghymru**  
Mae Dr Will Stiles ym ddarlithydd i Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn Mhrifysgol Aberystwyth. Yn ogystal â’i gyfrifoldebau addysgu, mae’n arwain y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn IBERS ar gyfer rhaglen Cyswllt Ffermio, sy’n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. O’r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth, mae Will wedi cynhyrchu nifer o erthyglau technegol ar amrywiaeth o bynciau, gan ganolbwyntio’n benodol ar newid hinsawdd a’r amgylchedd, er mwyn rhannu ymchwil wyddonol gyfredol gyda’r diwydiant amaethyddol. Mae gan Will gefndir mewn gwyddor pridd, biogeogemeg ac ecoleg, ac mae ei ymchwil yn edrych am ffyrdd o leihau’r effaith mae amaethyddiaeth yn ei gael ar yr amgylchedd, ac i wneud ffermio a chynhyrchu bwyd yn fwy cynaliadwy.

## Menna Williams – Cyswllt Ffermio




Mae Menna Williams wedi bod yn gweithio o fewn rhaglen Cyswllt Ffermio ers 2014, ac ar hyn o bryd hi yw’r Swydddog Cig Coch sy’n gyfrifol am Dde-orllewin Cymru. Mae Menna yn byw ar fferm biff a defaid ym Machynlleth. Mae Menna yn un o’r swyddogion technegol blaenllaw sy’n ymwneud ag astudiaeth ledled Cymru o’r enw ‘Prosiect Pridd Cymru’, sy’n ymwneud â safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio. Nod y prosiect yw amcangyfrif stoc carbon pridd caeau amryfal o systemau ffermio amrywiol.

## Dr Non Williams – Farming Connect



Ymunodd Dr Non Williams â Cyswllt Ffermio yn 2020 fel Swydddog Technegol Cig Coch ar gyfer Gogledd Cymru. Cyn hynny, cwblhaodd Non astudiaeth PhD ym Mhrifysgol Bangor, gan ymchwilio i fanteision cost amgylcheddol gwella cynhyrchiant porfa, gan ganolbwyntio ar systemau gwartheg yr ucheldir. Mae Non yn un o’r swyddogion technegol blaenllaw sy’n ymwneud ag astudiaeth ledled Cymru o’r enw ‘Prosiect Pridd Cymru’, sy’n ymwneud â safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio. Nod y prosiect yw amcangyfrif stoc carbon pridd caeau amryfal o systemau ffermio amrywiol.

## Gary Howell – Morgan Walsh Consultancy Cyf



**Defnyddio technoleg SMART LoRaWan ar y fferm**  
Mae Gary yn ddarlithydd electronig, yn ysgrifennwr meddalwedd ac yn ddatryswr problemau technegol, gyda dros 30 mlynedd o brofiad ymarferol yn datrys problemau technegol gan ddefnyddio ystod eang o dechnolegau.  
Mae wedi bod yn ymgynghoriwr a lywodraeth Cymru ar gyfer Band Eang Cyfflym iawn, ac mae’n cymryd rhan mewn nifer o brosiectau rhyngwyd bethau (IoT) a LoRaWan, sy’n archwilio’r monitro ar ffermydd laeth, llygredd dŵr a phrosiectau cymunedol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Jeremy Bowen Rees – Landsker Business Solutions



**Tueddiadau a chyfleoedd arallgyfeirio ar ffermydd...ar ôl y pandemig**  
Cafodd pob busnes ei effeithio gan y pandemig, ac mae Jeremy farn glir ar yr hyn sydd wedi digwydd, yr hyn a allai ddychwelyd i’r cyfnod cyn y pandemig, pa gyfleoedd a thueddiadau marchnad newydd sydd wedi dod i’r amlwg ac sy’n parhau i ddod i’r amlwg. Yn ogystal â bod yn brif ymgynghorwyr arallgyfeirio i Cyswllt Ffermio, mae Jeremy hefyd yn gyfarwyddwr Landsker, un o’r ymgynghoriaethau rheoli mwyaf blaenllaw yng Nghymru, ac mae wedi cynghori llawer o fentrau gwledig llwyddiannus ar sut i newid, tector a ffynnu mewn marchnad ddynamig iawn. Bydd cyflwyniad Jeremy yn ymddir i factoraau arallgyfeirio cyffredin, megis twristiaeth, bwyd-amaeth, manwerthu, ynni adnewyddadwy, datblygu eiddo a meysydd arbenigol eraill. Byddwch yn barod am gyflwyniad addysgiadol a bryfoctyl!

## Michael Halliwell – CattleEye



**Sut y gall monitro ar ffurf fideo awtomatig eich helpu i gadw llygad ar eich gwartheg 24/7...rheoli cloffni yn gynnar**  
Mae Michael Halliwell, yn ystod blynyddoedd lawer o werthu’n weithredol i’r gadwyr gynhyrchu laeth, wedi cynhyrchu gwybodaeth eang am ofnyion gweithredol y sector laeth. Mae ei brofiad o weithio gyda gweithrediadau masnachol â ffocws uchel, yn y DU ac yn rhyngwladol, wedi rhoi profiad eang iddo o’r heriau a wynebir o ganlyniad i bwysau cynyddol gan ddefnyddwyr, a’r newid yn y sgiliau sydd ar gael i lawer o ffermydd y DU.  
Mae gweithredu technoleg i helpu i wella ystyriaethau rheoli a lles ar y fferm wedi bod yn ffocws penodol, ac mae CattleEye yn datblygu atebion cynaliadwy sy’n gyson ac yn sichrau enillion i ffermwyr.

## Sam Carey - Milkwell



**Y ffordd i ffermio adfywio...raddfio laeth heb orfod dibynnu ar fewnbynnau**  
Mae Sam Carey, sy’n un o’r raddfio Amaethyddiaeth Harper Adams, yn hyderus y gall, ac y dylai, ffermio ‘adfywio’ ddisodli ffermio ‘confensiynol’. Wedi ei fagu yng ngorllewin Cymru, mae Sam yn ffermio ar dair uned laeth yng nghanolbarth a gogledd Cymru.  
Yn hanesyddol, mae ffermio confensiynol wedi dibynnu ar wrtaith cemegol, calchu, ail-hadu, gwrthfotigau a llawer o fewnbynnau costus eraill, sy’n cymryd llawer o amser, ac nad ydynt yn marn Swydddog y cyfathre’r cynhyrchiant gorau posibl. Yn fwyaf arwyddocaol, maent i gyd yn peri risgiau i’r amgylchedd, i fionamrywiaeth, i iechyd dynol a’r blaned.  
Wedi trosi hen fferm ddefaid ger Machynlleth yn uned laeth sy’n lloea y y gwanwyn, gyda ‘dim mewnbynnau heblaw gwartheg a gwair’, a wnaiff Sam eich argyhoeddi bod ffermio adfywio yn gynaliadwy ac yn broffidiol!

## Peter Gohery – Embrace FARM, Nam Corfforol (Iwerddon)



**Mae’n well colli munud mewn bywyd na cholli’ch bywyd mewn munud.**  
Magwyd Peter Gohery ar fferm laeth ei deulu yn Nwyrain Galway. Ymfudodd i America yn 1998 cyn dychwelyd i gymryd y fferm drosodd yn 2000, a oedd erbyn hynny yn uned buctod sugno. Ym mis Hydref 2009, mewn damwain difrifol ar y fferm, colodd Peter ei goes gan hefyd ddiodydd anafiadau eraill a newidiodd ei fywyd, a gafodd effaith sylweddol ar y teulu cyfan. Oherwydd y ddamwain, trodd ei sylw at amaeth, a dychwelyd i’r coleg, lle enillodd radd BSc mewn lechyd a Diogelwch. Heddiw, mae’n ymgynghoriwr diogelwch fferm, yn traddodi sgysiaau a darlithoedd diogelwch ar sail ymddygiad i ffermwyr ledled y DU ac America. Bydd Peter yn adrodd ei stori galonogol ac yn egluro ei arwyddair hynaws: “mae’n well colli munud mewn bywyd na cholli’ch bywyd mewn munud”.

## Adam Jones - Adam yn yr ardd



**Cyflwyno sgiliau tyfu i genhedlaeth newydd**  
Mae Adam Jones wedi bod â chariad oes at arddwriaeth a phopeth ‘gyrdd’ ers yn dair oed, ac roedd wrth ei fodd yn helpu ei ddiweddar dad-cu i ofalu am ei ardd lysiau. Heddiw, mae Adam yn arddwr, awdur ac yn gyflwynydd adnabyddus ar ddeud a chyfryngau Cymraeg. Mae ganddo ei sianel YouTube ac Instagram ei hun, ‘Adam yn yr ardd’, sy’n fuan miloedd o ddilynwyd. Mae ganddo ardd organig ger Llanelli, lle, yn angerddol am fionamrywiaeth ac annog bywyd gwyllt a natur, mae’n gweithredu system ‘dim cloddio’.  
Yn fwy diweddar, mae wedi bod yn gweithio fel hyfforddwr gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i ddatblygu sgiliau genhedlaeth newydd o dyfwr. Yn y tymor hir, mae’n gobethio sefydlu ei ardd farchnad ac ysgol arddio ei hun.

## Gwawr Edwards-Philips - Y Gorau o Gymru




**Gwnedwch eich llety gwyliau yn llwyddiant**  
Yn enedigol o Geredigion, mae Gwawr Edwards-Philips yn soprano o fri rhyngwladol. Bob amser yn brysus gyda’i bywyd profesiynol fel cantores, ynghyd ag ymweldosiadau teledu a radio yng Nghymru, magwyd y wraig a’r fam ifanc ar fferm ger Aberystwyth. Ynghyd â’i gŵr, sef Dan Edwards-Philips – cyn aelod o’r grŵp llwyddiannus Only Men Aloud, mae’r cwpl bellach wedi camu i fyd twristiaeth. Wedi dychwelyd i’w gwreiddiau ar fferm teulu Gwawr ger Aberaeron, maent eisoes yn arallgyfeirio i wyliau gwledig.  
Bydd Gwawr hefyd yn rhannu gyda chi ei phrofiad fel rhan o’r tîm sy’n rhedeg ‘Y Gorau o Gymru’, un o brif asiantaethau llety gwyliau, sy’n cynnig mwy na 450 o fythynnod a fflatiau gwyliau pedair a phum seren ym mron pob lleoliad posib yng Nghymru.  
Darganfyddwch beth sydd ei angen i wneud twristiaeth wledig yn llwyddiant, a pham mae e-farchnata, hysbysebu ar-lein a dylunio systemau gwe mor hanfodol.

## Joshua Riddett - CEO of Easy Crypto Hunter



**Mwyngloddio Cryptoarian ac Amaethyddiaeth – Hyd at 121% o adenillion**  
Mae Joshua Riddett yn entrepreneur llwyddiannus ac yn arbenigwr blaenllaw yn y diwydiant Cryptoarian yn y DU. Mae Josh, sylfaenydd y cwmni Easy Crypto Hunter, sef darparwr caledwedd premiwm y DU ar gyfer y diwydiant Cryptoarian, wedi bod yn areithio mewn prif gynnadleddau Cryptoarian, Eiddo, Amaethyddiaeth ac Ynni ledled y DU. Ochr yn ochr â hyn, mae’n ymgynghori a chynghori ar gyfer rhai o’r enwau mwyaf yn y diwydiant Cryptoarian, ac yn mentora cwmnïau newydd sy’n ceisio mynd i mewn i’r diwydiant. Mae cyflawniadau Josh wedi arwain at swyddi cynhyrdd ar gyfer Senedd yr UE a Swyddfa Gartref y DU. Ochr yn ochr â hyn, mae Josh wedi cael sylw mewn cyhoeddiadau cenedlaethol a byd-eang blaenllaw. Mae agwedd onest a thrïolgyw Josh at Cryptoarian wedi ei sefydlu fel yr arbenigwr ar gyfer offer Mwyngloddio Cryptoarian.  
Ynghyd â sectorau mwy clasurol o fuddsoddwyr, mae ei gwmni bellach yn gweithio’n agos gyda diwydiant ffermio’r DU, gan helpu i arallgyfeirio ffermydd Prydain i sichrau eu bod yn sefydlu yn ariannol ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Mae hyn bellach wedi arwain at gyflwyno 60 o offer ynni adnewyddadwy ledled y wlad, sy’n cynnwys ynni haul, gwynt, hydro a lle i unrhyw un ddo i weld gwir ystyr y diwydiant Cryptoarian yn rhywbeth nad oedd neb wedi clywed amdano. Mae pobl eisiau siarad â phobl go iawn a gweld i ble mae eu buddsoddiad yn mynd, felly dyna’r rhesymeg y tu ôl i gwmni Josh sy’n ehangu’i gyflwm, a oedd hyd yn oed yn ystod y pandemig i ddod i dyfu dros 500% yn 2021.

## Tim Hughes – Behind the Lens Media



**Sefyll allan...creu delweddau ar gyfer gwefannau a marchnata cyfryngau cymdeithasol**  
Os yw llun yn werth mil o eiriau, mae’n hanfodol eich bod chi’n tynnu llun arbennig, un sy’n sefyll allan! Mae Tim Hughes yn ffotograffydd a fideoagraffydd profesiynol sy’n gweithio yn Sir Benfro. Gan ddefnyddio ffotograffiaeth lonydd, fideoagraffeg a thechnoleg drôn, yn ogystal â delweddau 3D a 360, mae Tim yn creu straeon gweledol, cynhyllol, deniadol a thrawiadol, sy’n darparu offer hyrwyddo gwych.  
Darganfyddwch sut y gallwch chi roi’r gorau i ‘dynnu lluniau’, ond yn hytrach ‘dal y foment’, wrth i Tim rannu ei brif awgrymiadau ar beth i’w ffilmio pan fyddwch ‘y tu ôl i’r lens’, neu sut i farchnata eich menter, cynnyrch neu fusnes fferm penodol gyda lluniau lonydd, delweddau 3D neu ffilm drôn.

## Rhys Jones - Cattle Strength




**Cardio neu bwysau tegell? Campfa clôs fferm sy’n mynd o nerth i nerth**  
Yn gwrw fitrwydd, gŵr a thad i dri o blant bach, cafodd Rhys Jones ei fagu ar fferm laeth a defaid ger Llanbered Pont Steffan. Sefydlodd Rhys (31), sydd wedi graddio mewn hefyddwr i pherfformio cyfaraeon ac yn gyfarwyddwr rygbi lled-broffesiynol, gamfpa mewn adeilad ar y fferm deuluol rai blynyddoedd yn ôl. Heddiw, mae Rhys yn gadael y rhan fwyaf o’r dyfelyddwddau ffermio i aelodau eraill o’r teulu, er mwyn canolbwyntio ar ei fusnes fitrwyddad amrywiol sy’n ehangu’i gyflwm. Wedi’i arfogi â chynllun busnes a gafodd drwy Cyswllt Ffermio, bydd Rhys yn symud yn fuan i gamfpa fwy wedi’i ddylunio’n bwrpasol ar ei gyfer. Mae ganddo ap fitrwydd a brand dillad ei hun, ac mae’n trawsnewid bywydau cleientiaid sy’n dod mor bell ag Aberystwyth ac Aberteifi. Mae’n hyfforddi pob grŵp oedran, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Darganfyddwch sut mae wedi cyflawni ei gydbywyssedd ‘gwaith/bywyd’ perffaith.

## Sara Jenkins - Llaeth Teulu Jenkins Family Milk



**Gwerthu laeth... ein taith!**  
Mae Sara Jenkins yn gweithio ochr yn ochr â’r gŵr â’i theulu ar eu fferm laeth yng Ngheredigion. Wedi’i ardstio’n organig ers dros 25 mlynedd, mae gan y busnes, sy’n cael ei redeg mewn partneriaeth rhwng Eifion, ei frawd Geraint a’u rhieni, fuches sy’n cynnwys 150 o wartheg Holstein pedigri ar 550 erw. Mae tua 1.3 miliwn litr o laeth yn cael ei gynhyrchu’n flynyddol, gyda’r mwyafrif yn cael ei werthu i gwmni marchnata organig chydweithredol.  
Yn 2020, arweiniodd y cwymp ym mhirsiau laeth, Brexit a’r pandemig i’r teulu ymchwilio i ddichonoldeb gwerthu’n uniongyrchol i’r cyhoedd trwy beiriannau gwerthu laeth.  
Heddiw, maent hefyd yn gwerthu eu laeth organig, pasteureiddiedig, heb ei homogeneiddio trwy ddau beiriant gwerthu, sydd ar gael 24/7 yn Aberystwyth a Machynlleth, yn ogystal â nifer o siopau a bwytai, gan gynnwys dau gyda sêr Michelin.

## Geraint Hughes – Dewin.tech



**Defnyddio technoleg yr 21ain ganrif i ‘wneud bywyd yn symlach’**  
Mae Dewin.tech yn gwmni technoleg ‘rhyngwyd bethau’ o Ynys Môn, sy’n darparu technoleg a datrysiadau LoRaWAN ar gyfer darparwyr gwasanaethau a busnesau. Wedi’i sefydlu gan ddau ymgynghorydd busnes: Meirir a Geraint, mae’r cwpl yn creu gwerth i’w cwsmeriaid trwy ddefnyddio technoleg yr 21ain ganrif i arbed costau, gwella ansawdd, effeithlonrwydd a phrosesu rheoli, yn ogystal â systemau diogelwch.  
Mae gan y ddau gefndir a dylanwadd amrywiol o fewn y sector menter yng Nghymru, ac yn frwdrfyddig dros ddatblygu technoleg Dewin.tech i bob agwedd ar fywyd busnes, gan ganolbwyntio ar y sectorau cyhoeddus ac amaethyddol yng Nghymru a thu hwnt.  
Mae Geraint yn ymgynghorydd bwyd-amaeth llawrydd a sefydlodd Bwydydd Madryn yn 2012, ac hefyd wedi sefydlu brandiau adnabyddus, gan gynnwys Jones Crisps, Olew had rēp Blodyn Aru a bwydydd Calon Lân.  
Mae Dewin.tech wedi ymuno â’r Gwlad Jones i ddatblygu ‘Dewin AI’ (Deallusrwydd Artificial) a chnhaodd gyllid cyn datblygu’r syniad yn mis Mawrth 2021 gan M-Sparc (Parc Gwyddoniaeth Mena) i ddatblygu system hysbysu lloea gan ddefnyddio AI gweledigaeth gyfrifiadurol.

## Mark Lord - Berrys



**Ydych chi’n barod am newid? Rhowch drefn ar eich arian!**  
Ymunodd Mark â Berrys, busnes ymgynghori eiddo ledled y DU, yn 2017, ar ôl ymddeol yn gynnar o Lloyds Bank ar ôl gyrfa 36 mlynedd. Mae ganddo fwy na dau ddegawd o brofiad o fewn y sector amaethyddol, ac ef oedd uwch reolwr amaethyddol y banc, yn rheoli cleientiaid yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Yn aelod o BIAC (Sefydliad Ymgynghorwyr Amaethyddol Prydain), mae Mark hefyd yn ymgynghorydd cymeradwy Cyswllt Ffermio, trwy AgriPlan Cymru. Mae ei rôl yn cynnwys paratoi cynlluniau busnes, gwerthuso busnesau, cynhyrchu cyfrifenni elw a cholled rhagamcanol, mantolenni a rhaegolygon llif arian.  
Arbenigedd Mark yw cyllid a sichrau bod ad-daliadau ar fenthysciadau yn cyd-fynd â’r arian sydd ar gael i fusnes.

## Gwennan Jenkins – JMS Planning & Development



**Paidwch â bod ofn cynllunio – y ‘rhestr wneud’ sydd ei hangen arnoch**  
Mae Gwennan yn gynllunydd tref siartredig ac yn gyfarwyddwr cyswllt i JMS Planning & Development, sy’n arwain swyddfa Cymru’r busnes ymgynghori cynllunio gwlad a thref DU cyfan hwn.  
Yn siaradwr Cymraeg o Geredigion, mae gan Gwennan fwy na 12 mlynedd o brofiad yn y proffesiwn cynllunio. Ar ôl gweithio yn y sector preifat i ddechrau, symudodd yn ôl i Geredigion i weithio gyda’r awdurdod lleol fel swydddog cynllunio ac arweinydd tîm, cyn dechrau yn ei rôl bresennol. Mae gan Gwennan gyfoeth o wybodaeth a phrofiad o ymdrin â phrosiectau arallgyfeirio gwledig, gan gynnwys adeiladau, datblygiadau preswyl, adeiladau amaethyddol, TAN 6, sy’n ymdrin ag anheddau mentrau gwledig, cytundebau cyfreithiol Adran 106, sydd eu hangen rhwng tîrfeddiannwyr ac awdurdodau lleol, yn ogystal ag aildatblygu safleoedd tir llwyd yn fasnachol.

## Richard Corbett – Roger Parry & Partners



**Sut i wneud y mwyaf o’r incwm o’ch tir**  
Yn syfrfwr siartredig ac ymgynghorydd cynllunio, treuliodd Richard ei flynyddoedd cynnar ar fferm deuluol leol. Ymunodd â Roger Parry & Partners yn 2003, ar ôl graddio o Brifysgol Harper Adams gyda gradd mewn Menter Wledig a Rheolaeth Tir. Yn aelod o Sefydliad Brenhinol i Syfrfwr Siartredig (RICS) ac yn gymrawd o Gyndeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV), yn 2011 daeth Richard yn bartner yn Roger Parry & Partners LLP.  
Mae Richard wedi arbenigo mewn ymgynghoriaeth cynllunio amaethyddol, ac wedi bod yn ymwneud â’r gwaith o ddatblygu nifer o unedau laeth a dofednod, cynlluniau adnewyddadwy, ac yn fwy diweddar, nifer fawr o brosiectau twristiaeth. Mae hefyd yn darparu cyngor arbennigol ar gynlluniau tai ar raddfa fawr, yn ogystal ag anghenion tai amaethyddol, gwledig a lleol.  
Mae’n ymwneud yn weithredol â holl faterion amaethyddol a rheoli ystadau, gan gynnwys prisiaid, hawliau a chwtiau, materion ym mwyneud â landlordiaid a thenantiaid, prynu gorffodol ac iawndal, rheoli fferm a chynllunio gwledig. Mae Richard hefyd yn gwneud rhywfaint o waith preswyl a masnachol.